# Swyddog Cymorth Busnes Criced Cymru

**Teitl y Swydd:** Swyddog Cymorth Busnes Criced Cymru
**Lleoliad:** Cymru
**Yn adrodd i**: Swyddog Arweiniol Clybiau a Chynghreiriau
**Cyflog**: £24,000 - £28,000
**Cytundeb:** Parhaol

Ydych chi am gynorthwyo a datblygu Clybiau a Chynghreiriau Criced ledled Cymru? Dyma eich cyfle.

Rydym yn chwilio am aelod tîm trefnus, sy'n dda gyda phobl, all gynorthwyo clybiau a chynghreiriau i ddod yn hybiau cymunedol ffyniannus, cynhwysol a chynaliadwy. Byddwch yn gweithio'n uniongyrchol â chlybiau, cynghreiriau, a rhanddeiliaid mewnol ac allanol, i sicrhau bod ganddynt y sgiliau, yr arweiniad, a'r hyder i dyfu.

Os ydych chi'n angerddol dros wasanaeth cwsmeriaid, yn hynod effeithlon ar systemau TG, yn meddu ar brofiad o ddatblygu chwaraeon neu ddatblygu cymunedol, a'ch bod yn gwybod sut i ddod â phobl at ei gilydd i sicrhau newid parhaol, yna mi allai hwn fod yn gam nesaf perffaith i chi.

**Beth fyddwch chi'n ei garu**

- Y cyfle i fod yn rhan o'n gweledigaeth strategol newydd ar adeg dyngedfennol i griced yng Nghymru
- Rôl sy'n gyfuniad o reoli systemau, gweithredu rhagorol, a chymorth o'r radd flaenaf
- Opsiynau gweithio hyblyg
- Cyflog cystadleuol a buddiannau gwych
- Cynllun pensiwn y cwmni

**Pwrpas y Swydd**

- Darparu cymorth gweinyddol a gweithredol o'r radd flaenaf, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, ledled Cymru. Bydd deiliad y swydd yn chwarae rôl ganolog yn sicrhau bod criced hamdden yn cael ei weithredu, ei ddatblygu a'i lywodraethu'n effeithiol yng Nghymru, ac yn cynorthwyo clybiau, cynghreiriau, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid drwy ddarparu gwasanaeth a rheolaeth systemau rhagorool.

- Mae'r rôl hon yn cynnig cymorth uniongyrchol i'r broses o foderneiddio a sicrhau effeithlondeb systemau ECB / Criced Cymru, yn gwella dulliau diogelu a chydymffurfio o du aelodau, ac yn cryfhau profiad clybiau, cynghreiriau, gwirfoddolwyr a chwaraewyr ledled Cymru.

**Gyda'n Gilydd, Arwain, Gofalu** - dyma ein gwerthoedd. Os ydych chi'n credu mewn grymuso cymunedau, ysbrydoli pobl i weithredu, a gweithio ar y cyd i wneud gwahaniaeth go iawn, rydym am eich cael chi ar ein tîm.

**Criced yng Nghymru – creu ffyrdd deniadol o gymryd rhan mewn criced.**

Yn ddiweddar lansiodd Criced Cymru strategaeth newydd sbon gyffrous a deinamig, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Criced Morgannwg. Mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod criced yng Nghymru'n ffynnu, nawr ac yn y dyfodol. Wrth galon y weledigaeth hon mae ein hymrwymiad, sef Criced, Gêm i Bawb, sy'n sicrhau bod pobl o bob oedran a chefndir yn cael cyfleoedd cyffrous ac ystyrlon i gymryd rhan yn y gêm. Trwy gynnig rhaglenni clir, deniadol ac arloesol, ein nod yw gwella profiadau criced a'r hyn a gynigiwn i gymunedau.

## DISGRIFIAD O'R SWYDD

**Cyfrifoldebau**

- Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i rwydwaith Criced Cymru, gan gynnwys clybiau, cynghreiriau, rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol.
- Hyrwyddo cyfleoedd criced cynhwysol, diogel a chroesawgar, gan gefnogi ymrwymiad Criced Cymru i griced merched a menywod, cymunedau amrywiol, criced anabledd ac ardaloedd difreintiedig.
- Gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau safonau a chyfathrebu cyson ledled Cymru.
- Cynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau strategol yr ECB a Criced Cymru drwy weinyddiaeth effeithlon ac ymgysylltiad rhagweithiol.

**Cyfrifoldebau Penodol**

1. **Systemau ECB / Criced Cymru**

- Goruchwylio'r gwaith o weinyddu a monitro system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) Criced Cymru, y system gydymffurfio, a systemau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid ar gyfer clybiau, cynghreiriau a gwirfoddolwyr yng Nghymru.
- Darparu cymorth o'r radd flaenaf i glybiau ar ddefnyddio systemau, rolau gwirfoddoli, gofynion diogelu, cynefino, a datrys problemau.
- Monitro ac adrodd ar ardystiadau DBS, hyfforddiant Diogelu, cydymffurfio â gofynion y swyddog Dwylo Diogel, a safonau eraill gorfodol.

2. **Cynorthwyo Clybiau, Datblygu a Chydymffurfio â Gofynion Diogelu**

- Gweithio gyda'r Swyddog Diogelu Dynodedig a swyddogion diogelu cynghreiriau i gryfhau safonau diogelu ledled Cymru.
- Cynorthwyo i gyflenwi cyrsiau Dwylo Diogel, gofynion datblygu, ac archwiliadau clybiau.
- Helpu gwirfoddolwyr newydd i fynd ar drywydd cymwysterau a sicrhau bod clybiau'n bodloni disgwyliadau diogelu a llywodraethu blynyddol.
- Cynorthwyo'r Swyddog Arweiniol Clybiau a Chynghreiriau gyda chynlluniau i ddatblygu clybiau, ac ymgysylltu parhaus.

3. **Gweinyddu'r Gweithlu a Gwirfoddolwyr**

- Cynorthwyo Swyddog Arweiniol Datblygu Hyfforddwyr Criced Cymru i weinyddu hyfforddiant Ysgogwyr, cyrsiau hyfforddiant, a gweithdai DPP.
- Cydlynu'r broses o archebu lleoliadau, trefnu tiwtoriaid, cyfathrebu ag ymgeiswyr, a'r gofynion cyn ac ar ôl cyrsiau.
- Cadw cofnodion cywir o wirfoddolwyr a'r gweithlu ar draws y systemau ECB perthnasol.
- Darparu arweiniad sylfaenol i glybiau ar sicrhau cyllid Chwaraeon Cymru neu ECB ar gyfer ymgeiswyr cyrsiau.

4. **Cydlynu Cystadlaethau / Cynorthwyo Cynghreiriau**

- Gweinyddu a chyflenwi cystadlaethau Criced Cymru (hŷn, menywod, iau, ysgolion a fformatau newydd) gyda brandio a safonau cyson.
- Rheoli cyllidebau cystadlaethau yn gyfrifol, a monitro prosesau ariannol.
- Adolygu a mireinio'r gwaith o reoli a threfnu cystadlaethau gan ddefnyddio adborth gan glybiau, grwpiau llywio a chwaraewyr. Hyrwyddo ymddygiad 'Spirit of Cricket' a 'Get the Game On' ymhlith clybiau sy'n cymryd rhan.
- Darparu cymorth safonol i gynghreiriau, clybiau, timau a chwaraewyr, gan weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau a chydymffurfio â rheolau, a phwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion disgyblu.
- Trefnu a rheoli gemau, hyrwyddo cyfranogiad, a monitro cofnodion a defnydd o 'Play-Cricket'
- Hyrwyddo cystadlaethau ar draws sianeli Criced Cymru, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, a cheisio sicrhau mwy o ymgysylltiad â'r cyfryngau a'r byd masnachol.
- Cydweithredu â phartneriaid allweddol megis WACO a'r ECB ynghylch swyddogion, nawdd, amserlen gemau, a gofynion eraill.
- Trefnu digwyddiadau Diwrnodau Gemau Terfynol, gan gynnwys tendro ar gyfer lleoliadau, cydlynu'r trefniadau, a threfnu cyflwyniadau, tlysau a medalau.
- Cynorthwyo i ddatblygu cystadlaethau cynghreiriau iau ac ysgolion, gan weithio gyda Swyddogion Arweiniol Criced Cymru i gynyddu niferoedd a moderneiddio systemau.
- Datblygu systemau a phrosesau effeithlon i leihau baich gweinyddol gwirfoddolwyr a sicrhau adroddiadau cyson.

**Deilliannau Mesuradwy Allweddol**

- Gweinyddiaeth gywir ac amserol o systemau ECB / Criced Cymru.
- Cynorthwyo clybiau i gydymffurfio i sicrhau rheolaeth effeithiol (DBS, Hyfforddiant, Dwylo Diogel, Achrediad Clybiau ac ati)
- Cwblhau amserlenni gemau/cystadlaethau a monitro data mesuradwyedd P-C (gemau a gwblhawyd / ildiwyd / aildrefnwyd / rhoddwyd y gorau iddynt ac ati)
- Cynyddu'r niferoedd sy'n cystadlu.
- Rhedeg cystadlaethau / digwyddiadau effeithlon a difyr. Sicrhau sgoriau boddhad uchel gan glybiau a phartneriaid cynghrair.
- Cyflawni Diwrnodau Gemau Terfynol a digwyddiadau llwyddiannus.

**Sgiliau a Phrofiad Gofynnol**

**Hanfodol**

- Profiad o gynllunio, gweinyddu neu gydlynu cystadlaethau chwaraeon.
- Profiad o ymgysylltu â gwirfoddolwyr a chlybiau chwaraeon cymunedol.
- Sgiliau gweinyddol a TG cryf, a'r gallu i reoli systemau lluosog.
- Dealltwriaeth o egwyddorion diogelu a gofynion cydymffurfio ar gyfer gwirfoddolwyr ym myd chwaraeon.
- Profiad o weithio gyda Play-Cricket neu blatfformau cystadlu digidol tebyg (neu'r gallu i ddysgu'n gyflym).

**Dymunol**

- Profiad blaenorol o ddatblygu chwaraeon, gweinyddu cynghrair criced neu gynorthwyo clwb.
- Profiad o ddefnyddio systemau ECB / Criced Cymru / systemau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid (e.e. System Reoli Dwylo Diogel, Play-Cricket, Clubspark ac ati)
- Hyfforddiant Diogelu ECB a Chymorth Cyntaf (neu barodrwydd i gael hyfforddiant)
- Gwiriad DBS manwl (yn ofynnol) ar adeg penodi.

**Sgiliau**

- Gallu rhagorol i drefnu ac amldasgio.
- Cyfathrebu cryf, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Y gallu i adeiladu perthynas bositif â chlybiau, cynghreiriau, a gwirfoddolwyr.
- Lefel uchel o sylw i fanylder a chywirdeb data.
- Sgiliau datrys problemau a'r gallu i weithio dan bwysau yn ystod cyfnodau criced brig.

**Gwybodaeth ychwanegol am y rôl**

- Parodrwydd i weithio rhai nosweithiau a phenwythnosau, yn arbennig yn ystod yr haf.
- Angerdd dros gynorthwyo criced hamdden yng Nghymru.

- Trwydded yrru lawn y DU a defnydd o gerbyd.
- Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol ond ddim yn hanfodol.

**Ein Hymrwymiad i Gynhwysiant a Lles**

Mae gwerthoedd Criced Cymru sef **Gyda'n Gilydd, Arwain, Gofalu** yn rhan annatod o bob agwedd o'r sefydliad, ac maent yn arwain ein gweithredoedd a'n penderfyniadau, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb. Rydym yn annog ceisiadau yn arbennig gan unigolion sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd criced, gan gynnwys menywod, cymunedau ethnig amrywiol ac unigolion gydag anableddau, Rydym hefyd wedi ymrwymo I feithrin profiadau cynhwysol i bawb, yn unol â'n gweledigaeth strategol **Criced, Gêm i BAWB**, byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi.

**I wneud cais:**
Llenwch y ffurflen gais sydd wedi'i hatodi a'i dychwelyd at sandie.keane@cricketwales.org.uk ynghyd â llythyr eglurhaol erbyn canol dydd ar 26 Ionawr 2026.

Os hoffech chi drafod y rôl hon ymhellach mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Clybiau a Chynghreiriau mark.dixon@cricketwales.org.uk

Sylwer: Os na fyddwch chi wedi clywed gennym erbyn 30 Ionawr 2026 ni fydd eich cais wedi llwyddo i gyrraedd y cam nesaf.

**RECRIWTIO MWY DIOGEL**

I gael manylion am ein hymrwymiad i Recriwtio Mwy Diogel gweler ein Polisi Recriwtio Mwy Diogel

**DIOGELU**

Mae Criced Cymru yn credu bod Diogelu yn elfen hanfodol sy'n ganolog i bopeth a wnawn. Mae gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn yr hawl i deimlo'n ddiogel ac yn rhan lawn o bopeth a wnânt, ac mae hyn yn golygu sicrhau ein bod â'r bobl iawn yn gweithio o fewn ein sefydliad, drwy ddilyn proses recriwtio gadarn a diogel. Mae Criced Cymru yn gwneud pob ymdrech i wneud criced yng Nghymru yn lle diogel a phleserus i 'bawb' ei brofi ar bob lefel o'r gêm.

Mae Criced Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal. Er y byddwn bob amser yn penodi ar sail teilyngdod, byddem yn annog ceisiadau yn arbennig oddi wrth grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd criced – yn enwedig merched neu bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, neu rai sydd ag anabledd.

***Rhaid ichi fod yn byw ac yn meddu ar yr hawl i weithio yn y DU i wneud cais am y swydd hon.***